

Cyngor Cymuned Dolbenmaen

Cofnodion y cyfarfod misol yng Nghanolfan Gymdeithasol Golan ar y **6ed Mawrth 2025**
am **7:00 yr hwyr**.

1.	Presennol:	Richard Williams (Cadeirydd), Raymond Jones, Huw Pritchard (Pentrefelin) Megan Lloyd Williams, John Till (Golan), Richard Parry (Bryncir), Enid Egginton (Garndolbenmaen), Gwilym Evans (Prenteg)
2.	Ymddiheuriadau:	Cynghorydd June Jones, Cynghorydd Stephen Churchman (Cynghorwyr Cyngor Gwynedd), John Jones, Clifford Williams (Garndolbenmaen), Jess Williams, Iddon Edwards (Penmorfa), Edward Evans (Bryncir)
3.	Ddim yn bresennol:	Gwenno Emlyn Huws (Penmorfa)
4.	Datgan buddiant:	Clerc - Eitem 11
5.	Cywirdeb y cyn-gofnodion	GE yn cynnig ac RP yn eilio
6.	Materion yn codi o'r cyn-gofnodion	<p><u>Pont Melin Llecheiddior</u> - Dŵr yn cronni ar y bont. Adroddwyd bod arolygwr priffyrdd wedi bod allan yn ymweld ar bont. Maent wedi dod o hyd i ddraen. Y gobaith y caiff gwaith ei wneud yn fuan i ddatrys y broblem.</p> <p><u>Golau Stryd Ddiffygiol Prenteg</u> - Mae'r golau stryd bellach wedi ei drwsio gan Scottish Power. Gofynnwyd i'r clerch i gysylltu â Chyngor Gwynedd i ofyn pa mor aml maent yn archwilio goleuadau stryd ac os gafodd archwiliadau eu gwneud rhwng Rhagfyr a diwedd Chwefror.</p>
7.	Mynwentydd	<p><u>Mynwent Bethel, Golan</u></p> <p>Cynhaliwyd Is-bwyllgor Mynwentydd ar safle Mynwent Bethel, Golan ar y 12fed o Chwefror am 16:45. Adroddwyd fod yna waith angen ei wneud ger y sied, y pryder yw bod yna beipen ddiffygiol yn arbed dŵr rhag rhedeg yn iawn i'r suddfan dŵr. Bydd angen codi'r concriid i archwilio ymhellach. Soniwyd hefyd bod angen creu llwybr rhwng yr ardal ddynodedig ar gyfer claddu llwch a chladdu plant er mwyn eu diffinio'n gliriach.</p> <p>Mae yna waith arall (gwaith tacluso ymylon a'r llwybrau concriid) yn digwydd yn y fynwent ar hyn o bryd. Penderfynwyd aros i'r gwaith yma gael ei gwblhau ac ail ymweld â'r materion uchod eto.</p>

8.	Llwybrau Cyhoeddus	<p><u>Llwybr Troed ger yr Hen Swyddfa Bost, Pentrefelin -</u> Dywedodd RJ fod y Cynghorydd Stephen Churchman wedi trafod cyflwr y llwybr yma hefo swyddog o'r Uned Llwybrau yng Nghyngor Gwynedd. Soniodd mai opsiwn tymor byr fyddai rhoi cerrig ar hyd y llwybr a'r opsiwn tymor hir fyddai i Gyngor Gwynedd fabwysiadu'r ffordd ond byddai hyn yn broses hirwyntog.</p> <p><u>Llwybr ger Canolfan Gymdeithasol Golan -</u> Soniodd MLW bod gwaith wedi bod yn digwydd ar y llwybr yma yn yr wythnosau diwethaf. Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu gyda'r Uned Llwybrau i holi pa waith a pha bryd fydd y llwybr ar agor eto.</p>
9.	Adroddiad Pentrefi	<p><u>Bryncir -</u> Adroddwyd fod dŵr yn cronni ar ochr y ffordd rhwng Llecheiddior Ganol a Llecheiddior Uchaf. Clerc i adrodd am hyn i'r Adran Briffyrdd.</p> <p><u>Garndolbenmaen-</u> Dim i'w adrodd</p> <p><u>Pentrefelin -</u> Dim i'w adrodd</p> <p><u>Penmorfa -</u> Dim i'w adrodd</p> <p><u>Golan -</u> Dim i'w adrodd</p> <p><u>Prenteg -</u> Dim i'w adrodd</p>
10	Bin Halen	<p>Soniodd y Clerc bod yna geisiadau wedi cael eu cyflwyno un gan y Cynghorydd Stephen Churchman ar ran preswlydd yng Nghwm Pennant ac un gan breswlydd o Golan.</p> <p>Cais Cwm Pennant - penderfynwyd gwrthod y cais yma am y tro am nad oedd enw na chyfeiriad y preswlydd wedi ei ddarparu. Clerc i adrodd yn ôl i'r Cynghorydd Churchman.</p> <p>Cais Golan - nid oedd yn glir ym mhle roedd yn dymuno cael bin halen, gofynnwyd i'r Clerc gysylltu yn ôl gyda'r preswlydd i ofyn iddo roi'r lleoliad arfaethedig ar fap.</p> <p>Gall y ceisiadau yma gael eu cynnwys ar agenda'r cyfarfod misol nesaf ar ôl derbyn y wybodaeth angenrheidiol.</p>
11	Codi Hicyn Cyflog Clerc - Ebrill 2025	<p>Pawb yn cytuno i godi hicyn cyflog y cleric o hicyn 8 i hicyn 9 o fis Ebrill 2025 ymlaen. Cyflog newydd y cleric fydd £331.73 y mis ar ôl treth gyda chostau cyfrifiadurol a ffôn o £35.00, felly'r "standing order" newydd fydd £366.73 y mis.</p>

12	Ymgynghoriad Uchelgais Gogledd Cymru	Gan fod yna lawer iawn o wybodaeth yn y ddogfen ymgynghoriad awgrymwyd ein bod yn ei gynnwys ar yr agenda eto fis nesaf.
13	Gohebiaeth	<ul style="list-style-type: none"> a. Rhybudd Cau Ffordd Eglwys Santes Fair i Lodge b. Arolwg Gwynedd 2025 c. Ymgynghoriad Cyhoeddus - Rheoli'r Defnydd o Dai fel Cartrefi Gwyliau
	Gohebiaeth Ychwanegol	<ul style="list-style-type: none"> a. Unllais Cymru - Hyfforddiant Chwefror a Mawrth b. Parc Cenedlaethol Eryri - Hysbysiad o gadarnhau cyfarwyddyd Erthygl 4 (nad yw'n dod i rym yn uniongyrchol) ar gyfer rheoli'r defnydd o dai preswyl c. Parc Cenedlaethol Eryri - Cynghorau Cymuned a Thref a'r System Gynllunio - Cyfarwyddyd ch. Cynllun Peilot Dwyfor - diweddariad Chwefror
14	Cynllunio	<p>Rhestrau: 3/2, 10/2, 17/2 a 24/2</p> <p><u>Ceisiadau Cynllunio:</u></p> <p>C25/0034/36/LL Rhwyng Ddwryd, Garndolbenmaen, LL51 9LQ To dros iard amaethyddol a storfa biswail presennol - Dim gwrthwynebiad</p> <p>C25/0085/36/LL Glan Byl, Pentrefelin, LL52 ORD Cais am 2 dyrbin gwynt arfaethedig a 60m2 o baneli solar wedi'u osod ar y ddaear - Dim gwrthwynebiad</p> <p>C25/0106/36/DT Hen Felin, Pentrefelin Modurdy Domestig Arfaethedig - Dim gwrthwynebiad</p>

15	Materion Ariannol	<p><u>Monitro'r gyllideb</u> : Dim gorwariant</p> <p><u>Biliau i'w talu</u></p> <p>Cyflog Clerc = £ 326.87 Ffôn = £ 15.00 Cyfrifiadur = £ 20.00 HMRC = £81.60 Veolia = £27.28 HSBC = £8.00 Unllais Cymru = £280.00</p> <p>Derbyniadau: Cyngor Gwynedd (Llwybrau) = £886.00</p> <p>Balansau Cyfrifon Banc:</p> <p>Cadw: £35,355.93 Cyfredol: £2,541.73</p>
16.	Gohebiaeth i'r wasg	<ul style="list-style-type: none"> • Llwybr Golan • Llwybr Pentrefelin